# SL(6)564 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Gosodwyd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn y Senedd ar 22 Tachwedd 2024. Yn ei adroddiad ar y Rheoliadau hynny, nododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad sawl pwynt technegol i adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2.

Roedd un o'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â dyddiad dod i rym darpariaethau penodol. Mae'r offeryn hwn yn amnewid rheoliad 1(3) newydd yn y Rheoliadau hynny i fynd i'r afael â'r mater fel bod y darpariaethau sydd angen dod i rym ar 1 Ionawr 2025 yn gallu gwneud hynny.

Yn y Memorandwm Esboniadol i'r offeryn hwn, mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd gwaith yn digwydd ar wahân i fynd i'r afael â'r pwyntiau technegol eraill a nodir yn adroddiad y Pwyllgor.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwneir y Rheoliadau hyn mewn ymateb i wallau a nodir yn adroddiad y pwyllgor hwn ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024, a'r eglurhad sy'n ofynnol gan yr adroddiad hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 6 Ionawr 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.